

**Arolygiad o Bractis  
Deintyddol Cyffredinol (lle  
rhoddwyd rhybudd)**

Bwrdd Iechyd Prifysgol  
Hywel Dda,

**Practis Deintyddol  
Rhodfa'r Gogledd**

9 Chwefror 2015

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr am fod ieithoedd a fformatau eraill yn cael eu cynhyrchu ar gais i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu  
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru  
Llywodraeth Cymru  
Parc Busnes Rhyd-y-car  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ**

Neu drwy

**Ffôn:** 0300 062 8163  
**E-bost:** [hiw@wales.gsi.gov.uk](mailto:hiw@wales.gsi.gov.uk)  
**Ffacs:** 0300 062 8387  
**Gwefan:** [www.agic.org.uk](http://www.agic.org.uk)

## Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	2
2.	Methodoleg .....	2
3.	Cyd-destun.....	4
4.	Crynodeb .....	5
5.	Canfyddiadau .....	6
	Profiad y Claf.....	6
	Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru .....	10
	Rheolaeth ac Arweinyddiaeth.....	13
6.	Y Camau Nesaf.....	17
	Atodiad A.....	18

## 1. Cyflwyniad

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddyd rhybudd o Bractis Deintyddol Rhodfa'r Gogledd, rhan o IDH Dental Group, yn 61 Rhodfa'r Gogledd, Aberystwyth, SY23 2JN yn yr ardal a wasanaethir gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ar 9 Chwefror 2015.

Yn ystod yr arolygiad, ystyriwyd ac adolygwyd y meysydd canlynol:

- Profiad y claf
- Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd yng Nghymru
- Rheolaeth ac arweinyddiaeth
- Ansawdd yr amgylchedd

## 2. Methodoleg

Mae arolygiadau AGIC o Bractisau Deintyddol Cyffredinol yn ceisio canfod pa mor dda y mae practisau yn bodloni'r safonau yn Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru<sup>1</sup>.

Mae AGIC yn deall bod Practis Deintyddol Rhodfa'r Gogledd yn bractis cymysg yn cynnig gwasanaethau deintyddol preifat a'r GIG. Yn hyn o beth, bydd unrhyw ddeintydd sy'n gweithio yn y practis sydd hefyd wedi'i gofrestru ag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn agored i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011.

Yn ystod yr arolygiad gwnaethom adolygu dogfennau a gwybodaeth o nifer o ffynonellau, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC

---

<sup>1</sup> Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Daeth Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru i rym ar 1 Ebrill 2010. Mae'r fframwaith safonau yn nodi gofynion yr hyn a ddisgwylir gan bob gwasanaeth iechyd ym mhob lleoliad yng Nghymru.  
<http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/1064/Gwneud%20yn%20Dda%2C%20Gwneud%20yn%20Well%20%E2%80%93%20Safonau%20ar%20gyfer%20Gwasanaethau%20Iechyd%20Cymru%20%28Ebrill%202010%29.pdf>

- Cyfweiliadau gyda staff gan gynnwys deintyddion a staff gweinyddol
- Sgyrsiau gyda staff nyrsio
- Archwilio sampl o gofnodion deintyddol cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau'r practis
- Archwilio'r offer a'r safle
- Gwybodaeth yn nhaflen wybodaeth y practis ac ar ei wefan
- Holiaduron cleifion AGIC

Ar ddiwedd pob arolygiad, rydym yn cynnig trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y practis deintyddol er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Bydd y practis deintyddol a'r bwrdd iechyd yn cael eu hysbysu am unrhyw bryderon brys a allai godi o ganlyniad i arolygiadau deintyddol, a hynny trwy lythyr gofyn am sicrwydd ar unwaith. Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw argymhellion eraill a wneir, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu hwn.

Mae arolygiadau deintyddol yn cofnodi ciplun o'r safonau a arferir yn y sefydliad yr ymwelir ag ef ar ddiwrnod yr arolygiad.

### 3. Cyd-destun

Mae Practis Deintyddol Rhodfa'r Gogledd yn darparu gwasanaeth i 26,339 o gleifion y GIG yn bennaf yn ardal Aberystwyth yng Ngheredigion. Mae'r practis yn rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir yn yr ardal ddaearyddol a adwaenir fel Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda. Mae'r practis yn cyflogi tîm o staff sy'n cynnwys: chwe deintydd, wyth nyrs, un rheolwr practis a thri derbynnydd.

Darperir amrywiaeth o wasanaethau. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Deintyddiaeth gyffredinol
- Gwynnu dannedd
- Coronau a phontydd
- Dannedd gosod.

## 4. Crynodeb

Archwiliodd AGIC sut mae Practis Deintyddol Rhodfa'r Gogledd yn bodloni'r safonau gofal yn Gwneud yn Dda, Gwneud yn Well: Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru.

Dywedodd cleifion wrthym eu bod yn fodlon ar safon y gofal maent yn ei dderbyn yn y ddeintyddfa ar y cyfan a'u bod yn derbyn gwybodaeth ddigonol am eu triniaeth. Roedd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw a'r holiaduron cleifion yn gadarnhaol am y rhan fwyaf o feysydd gofal.

Rhoddwyd sicrwydd i ni bod gofal a thriniaethau'n cael eu cynllunio a'u cyflenwi'n gyson gyda'r bwriad o sicrhau diogelwch a lles cleifion.

Ar ddiwrnod yr arolygiad, cawsom sicrwydd bod y practis yn cael ei redeg yn effeithiol ac effeithlon, a bod systemau cadarn ar waith i sicrhau diogelwch cleifion.

Gall cleifion sy'n defnyddio'r practis a'r staff fod yn hyderus bod yr adeilad yn ddiogel, ei fod yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda, ac yn darparu amgylchedd cyfforddus i gleifion dderbyn triniaeth ynddo.

## 5. Canfyddiadau

### *Profiad y Claf*

**Fe'n hysbyswyd gan gleifion yn gyffredinol eu bod yn fodlon ar safon y gofal maent yn ei dderbyn yn y ddeintyddfa a'u bod yn derbyn gwybodaeth ddigonol am eu triniaeth. Roedd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw a'r holiaduron cleifion yn gadarnhaol am y rhan fwyaf o feysydd gofal.**

Cyn yr arolygiad, gofynnwyd i'r practis ddsbarthu holiaduron AGIC i gleifion i gael sylwadau ar y gwasanaethau deintyddol a ddarperir. Hefyd, gwnaethom siarad â nifer fach o gleifion a oedd yn derbyn triniaeth ar ddiwrnod yr arolygiad (dau o bobl).

Dychwelwyd ugain holiadur. Roedd y cleifion a gwblhaodd yr holiaduron a'r rhai y siaradwyd â nhw wedi bod yn defnyddio'r gwasanaeth ers rhwng tair wythnos a 40 mlynedd. Roedd rhai wedi aros gyda'r practis trwy'r newid mewn perchnogaeth o Denticare i grŵp IDH. Dywedodd pob un o'r 22 o bobl fod tîm y practis yn rhoi croeso iddynt bob amser, gan gynnig sylwadau fel:

*"Ydyn, maen nhw'n groesawgar iawn. Agweddu cadarnhaol a chwrtais iawn."*

Roedd yr holl gleifion yn teimlo eu bod yn derbyn digon o wybodaeth am eu triniaeth. Gwnaeth archwiliad o sampl o gofnodion cleifion a sgwrs â'r deintyddion gadarnhau bod opsiynau triniaeth wedi'u trafod â chleifion; ac roedd cynlluniau triniaeth, opsiynau ar gyfer triniaeth neu eu hoffter yn cael eu cofnodi yng nghofnodion y cleifion.

Nid yw'r practis yn ymwneud â'r gwasanaeth y tu allan i oriau gan yr arweinir hwn gan y Bwrdd Iechyd. Roedd neges awtomatig ar linell ffôn y practis, oedd yn rhoi manylion cyswllt y gwasanaeth tu allan i oriau. Roedd arwydd yn ffenest ffrynt y practis yn dangos y rhif cyswllt hefyd. Er gwaethaf hyn dywedodd bron i 75% o gleifion wrthym nad fyddent yn gwybod sut i fynd at ofal pan oedd y practis ar gau.

***Yr hyn sydd angen ei wella:***

***Dylai'r practis ystyried ffyrdd o ddangos y manylion cyswllt y tu allan i oriau yn amlwg i'r cleifion.***

Roedd system apwyntiadau hyblyg ar waith, a gallai cleifion drefnu apwyntiadau ymlaen llaw ac ar sail argyfwng. Roedd hyn yn golygu y gallai



cleifion fod yn hyderus bod system ar waith i geisio sicrhau eu bod yn cael eu gweld yn gyflym yn ôl yr angen. Dywedodd yr holl gleifion eu bod yn fodlon ar y system hon er bod dros hanner ohonynt wedi profi oedi gydag amser eu hapwyntiad. Ymysg sylwadau'r cleifion roedd:

*'Yn achlysurol'.*

*'Do - fel arfer oedi o hyd at 10 - 20 munud neu fwy.'*

*'Do - ond rhoddir eglurhad llawn'.*

*'Do - hyd at 40 munud.'*

*'Do - oherwydd amgylchiadau na ellid eu rhagweld a chefais fy rhoi ar restr canslo ac roeddwn yn hapus gyda hynny.'*

*'Byddai apwyntiadau ychydig yn hwy a llai o amser aros yn gwella'r profiad'.*

***Yr hyn sydd angen ei wella:***

***Cynghorir y practis i archwilio amseroedd aros cleifion i weld a oes meysydd y gellir eu gwella.***

Nid oedd taflen wybodaeth am y practis ar gael gan fod grŵp IDH yn newid eu brand ar hyn o bryd i "My Dentist", felly mae'r holl bosteri, taflenni ac arwyddion (gan gynnwys bathodynau enwau staff) wrthi'n cael eu diweddarau.

***Yr hyn sydd angen ei wella:***

***Mae angen i'r practis sicrhau bod y dogfennau newydd ar gael cyn gynted â phosibl neu fod digon o'r dogfennau blaenorol ar gael nes bydd yr wybodaeth gyda'r brand newydd arni'n cyrraedd.***

Ceir arwydd eglur ar flaen yr adeilad yn nodi amseroedd agor y practis er gwybodaeth i gleifion.

Dywedodd staff wrthym fod gan y practis systemau i asesu barn cleifion ac i weithredu arni fel; ffurflenni adborth a holiaduron cleifion blynyddol y GIG. Roedd hyn yn golygu bod y practis yn ystyried barn y cleifion wrth gynllunio dulliau cyflenwi gwasanaeth.

Gwnaethom edrych ar nodiadau cleifion a gwelsom fod cyngor ar hyrwyddo iechyd y geg, sgrinio canser a rhoi'r gorau i ysmegu wedi eu cofnodi. Gwelsom hefyd bosteri hyrwyddo iechyd y geg yn y dderbynfa a'r manau aros.

Roedd polisi cwyno ar gael ac yn weladwy i'r cyhoedd yn y dderbynfa. Nid oedd yn cydymffurfio'n llawn â'r ddogfen "Gweithio i Wella"<sup>2</sup> felly dylid adolygu'r ddogfen. Nodwyd gennym hefyd nad oedd cyfeiriadau AGIC na'r Cyngor Iechyd Cymuned (CIC) ar y polisi er mwyn i gleifion gysylltu â nhw pe bai'r angen yn codi. Pan ofynnwyd i gleifion a fyddent yn gwybod sut i wneud cynw neu leisio pryder, dim ond pump ohonynt a ddywedodd y byddent yn gwybod. Argymhellir, felly, bod y practis yn sicrhau bod yr arwydd gyda manylion y broses gwyno'n fwy gweladwy i'r cleifion.

***Yr hyn sydd angen ei wella:***

***Dylai'r broses gwyno gydymffurfio â'r ddogfen "Gweithio i Wella" a dylai gynnwys manylion cyswllt y Cyngor Iechyd Cymuned (ar gyfer pob claf) a manylion cyswllt AGIC i sicrhau bod cleifion yn ymwybodol o'u hawl i droi atynt pe bai'r angen yn codi.***

Pan gawsant eu holi am eu barn ar y gwasanaeth cyffredinol iddynt ei dderbyn, dywedodd y cleifion wrthym eu bod yn fodlon; gyda sylwadau fel;

*"Yn fodlon iawn. Rwyf bob amser yn gadael yn teimlo'n well am bopeth."*

*"Bodlon iawn".*

*"Yn gyffredinol, ydw".*

*Yn ogystal â'r cwestiynau a ofynnwyd, gwnaeth rhai cleifion sylwadau ac awgrymiadau cadarnhaol am eu profiadau oedd yn cynnwys;*

*"Fel claf yma ers nifer o flynyddoedd, rwyf bob amser yn teimlo fy mod yn cael croeso ac yn gallu deall pob agwedd ar driniaeth ac apwyntiadau dilynol..."*

*"Mae fy neintydd yn hynod o gyfeillgar a phroffesiynol ac mae wedi gwneud dod at y deintydd yn brofiad i'w fwynhau - y deintydd gorau rydw i wedi ei gael erioed."*

---

<sup>2</sup> Gweithio i Wella yw'r prosesau integredig ar gyfer codi pryderon (cwynion), ymchwilio iddynt, a dysgu ohonynt. Materion a nodir o ddigwyddiadau diogelwch cleifion, cwynion ac, o ran cyrff y GIG yng Nghymru, honiadau am wasanaethau a ddarperir gan gorff cyfrifol yng Nghymru yw pryderon

*"Rydw i bob amser wedi bod yn hollol fodlon ar yr wybodaeth a thriniaeth rwyf wedi eu derbyn."*

*"Rwy'n credu bod y staff yn y practis yn wych, mae gen i ferch ag Awtistiaeth ac maen nhw wastad wedi bod yn ardderchog gyda hi a fy mab ifanc."*

## ***Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru***

**Rhoddwyd sicrwydd i ni fod gofal a thriniaethau'n cael eu cynllunio a'u cyflawni'n gyson yn y ffordd a fwriadwyd er mwyn sicrhau diogelwch a lles cleifion.**

### **Cofnodion cleifion**

Roedd cofnodion yn cael eu cadw yn y practis ar gronfa ddata gyfrifiadurol, gyda pheth gwybodaeth yn cael ei chadw ar bapur. Wrth archwilio sampl o 18 o gofnodion deintyddol (h.y. tri o gofnodion cleifion ar gyfer pob deintydd sy'n gweithio yn y practis), gwelwyd bod anghenion y cleifion yn cael eu hasesu, a bod gofal a thriniaeth yn cael eu cynllunio a'u cofnodi'n drylwyr. Roedd y wybodaeth ddiweddaraf o ran cyflyrrau meddygol wedi'i nodi ym mhob cofnod cleifion. Roedd pob un ohonynt yn cynnwys cofnod o hanes deintyddol a chymdeithasol blaenorol. O ran cynlluniau triniaeth, gwelsom gysondeb rhwng y deintyddion gyda phawb yn dangos tystiolaeth o gynllunio, gwneud penderfyniadau a chydsyniad gan gleifion i driniaeth. Roedd y cleifion i gyd wedi cael eu gweld eto o fewn canllawiau'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE).<sup>3</sup>

Os oedd cleifion wedi derbyn radiograffau (Pelydrau-X), gwelsom dystiolaeth gan bump o'r chwe deintydd o werthusiad clinigol o'r pelydr-X i sicrhau bod ansawdd y ddelwedd yn ddigonol. Pan gafodd ei holi, dywedodd y deintydd nad oedd wedi dangos cofnod nad oedd yn ymwybodol bod disgwyl iddynt wneud hynny. Ni welsom dystiolaeth o archwiliadau rheolaidd i sicrhau arfer diogel ac effeithiol.

***Yr hyn sydd angen ei wella:***

***Dylai'r practis ddatblygu system ar gyfer archwilio pelydrau-X i sicrhau arfer diogel ac effeithiol.***

Gwnaethom drafod ansawdd y cofnodion gyda'r deintyddion a gwelsom fod systemau boddhaol ar waith ar y cyfan. Gwelsom fod y deintyddion yn

---

<sup>3</sup>Mae canllaw clinigol ail-alw deintyddol NICE yn helpu clinigwyr i benderfynu pa mor aml rhwng adolygiadau iechyd y geg sy'n briodol o ran bodloni anghenion cleifion unigol.

ysgrifennu eu hadroddiadau clinigol yn hytrach na dibynnu ar dempledi. Roedd unrhyw fân ddiffygion mewn cofnodion yn cael eu priodoli i'r newid diweddar mewn systemau electronig yn y practis. Dywedwyd wrthym fod diffyg cymorth a hyfforddiant yn ystod y cyfnod o newid meddalwedd clinigol ond bod y clinigwyr wedi mynd i'r afael â hyn yn awr. Datgelodd trafodaeth bellach gyda'r deintyddion nad oeddent yn cynnal archwiliadau ac adolygiadau clinigol rheolaidd. Yn y gorffennol cafwyd ymweliadau rheolaidd gan y Cyfarwyddwr Clinigol a oedd wedi bod yn gefnogol, yn arbennig i ddeintyddion newydd; fodd bynnag yn y blynyddoedd diweddar roedd yr ymweliadau hyn yn digwydd yn llai aml.

***Yr hyn sydd angen ei wella:***

***Mae angen i'r cwmni sicrhau bod cymorth clinigol priodol ar gael i ddeintyddion a bod archwiliadau ac adolygiadau gan gymheiriaid yn cael eu cynnal i sicrhau arfer diogel a chyfredol.***

**Cadw cyffuriau ac offer ar gyfer argyfwng**

**Wrth archwilio'r modd y cedwir cyffuriau ar gyfer argyfwng yn y practis, gwelwyd eu bod yn cael eu cadw'n ddiogel. Gwelwyd hefyd bod trefniadau addas ar waith i sicrhau bod cyffuriau lle mae'r dyddiad wedi dod i ben yn cael eu newid yn ddi-oed.**

Roedd swyddog cymorth cyntaf penodol ar gael, ac roedd y pecyn cymorth cyntaf yn cael ei gadw o fewn cyrraedd hawdd. Roedd offer angenrheidiol ar gyfer achos o argyfwng ar gael, ac roedd rhai eitemau wedi eu storio ym mhob deintyddfa yn ogystal ag yn y pecyn cymorth cyntaf.

**Dadheintio**

Gwnaethom edrych ar y gweithdrefnau ar waith ar gyfer dadheintio offer a gwelsom fod mesurau priodol ar waith, gan gynnwys ystafell ddadheintio neilltuedig. Roedd prosesau eglur ar waith a gwelsom dystiolaeth o gadw cofnodion; ardaloedd pendant wedi'u diffinio; cofnod dilysiad ar gyfer pob cylchred golchi; y defnydd o faddonau uwchsonig ar gyfer glanhau a phump awtoclaf ar gyfer sterileiddio offer.

Cadarnhaodd rheolwr y practis bod archwiliadau (gwiriadau) rheolaidd yn cael eu cynnal, bob chwarter, mewn perthynas â gofynion rheoli heintiau. Fodd

bynnag nid oedd y rhain yn unol â Memorandwm Technegol Iechyd Cymru (WHTM 01-05)<sup>4</sup>.

***Yr hyn sydd angen ei wella:***

***Dylai'r practis gynnal archwiliadau rheoli heintiau bob chwarter yn unol â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.***

### **Offer radiograffig**

Ni nodwyd unrhyw bryderon ynglŷn â'r ffeil amddiffyn rhag ymbelydredd. Roedd cynghorydd amddiffyn rhag ymbelydredd penodol ar gael; nodi a diffinio ardaloedd rheoledig, cofnod o ymchwiliad i faint o ddos i'w roi, a system sicrhau ansawdd o ran ansawdd y lluniau. Gwelwyd tystysgrif archwiliad o'r cyfarpar radiograffeg hefyd.

---

<sup>4</sup> <http://wales.gov.uk/topics/health/cmo/professionals/dental/publication/cdo-letters/decontamination2/?lang=cy>. Mae Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 yn rhoi canllawiau i weithwyr proffesiynol ynghylch dadheintio mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol yng Nghymru.

## *Rheolaeth ac Arweinyddiaeth*

### **Crynodeb**

**Ar ddiwrnod yr arolygiad, cawsom sicrwydd bod y practis yn cael ei redeg yn effeithiol ac effeithlon; a bod systemau cadarn ar waith i sicrhau diogelwch cleifion.**

Roedd y practis yn darparu gofal a thriniaeth i gleifion y GIG yn bennaf gyda rhai cleifion preifat. Ar adeg ein harolygiad, roedd rheolwr practis profiadol yn gyfrifol am redeg y practis o ddydd i ddydd. Roedd y rheolwr practis yn gweithio tridiau'r wythnos, yn gyfrifol am ddau bractis ac roedd ganddo ddau reolwr cefnogi rhan amser (un ym mhob practis) oedd yn gweithio ar ddau ddiwrnod arall yr wythnos. Roedd hyn yn sicrhau bod rheolwr ar gael trwy gydol yr wythnos weithio.

Roedd y practis wedi ei gaffael gan grŵp IDH ym mis Awst 2014. Fel rhan o'r caffaeliad hwn cafodd polisïau newydd eu cyflwyno, a throsglwyddwyd y staff ar y pryd i gontractau newydd. Dywedodd rheolwr y practis wrthym fod y trosglwyddiad wedi bod yn ddi-dor ac wedi cael cefnogaeth dda. Ar y cyfan, gwelsom fod y practis yn cael ei redeg yn dda ac roedd y gwasanaeth yn cael ei gynnal gan bolisïau a gweithdrefnau ysgrifenedig perthnasol i sicrhau bod gofal a thriniaeth cleifion yn cael eu cyflenwi'n ddiogel. Roedd y staff yn gallu cael mynediad at y polisïau hyn o fewn y practis er mwyn gwirio eu bod yn eu deall a sicrhau eu bod yn cymryd y camau gweithredu cywir. Roedd dyddiadau adolygu ar y polisïau i sicrhau bod yr wybodaeth yn gyfredol. Gwnaethom ganfod nad oedd unrhyw bolisi ar Urddas a Phreifatrwydd Cleifion a thrafodwyd hyn gyda rheolwr y practis ar y diwrnod.

***Yr hyn sydd angen ei wella:***

***Mae angen i'r cwmni ddatblygu polisi ar Urddas a Phreifatrwydd Cleifion.***

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn credu eu bod yn cael cefnogaeth dda yn eu swyddogaethau gan reolwr y practis, ac y byddent yn gyfforddus i godi unrhyw bryder a allai fod ganddynt yn ymwneud â'r gwaith. Roedd tystiolaeth o waith tîm cydlynol ac effeithiol.

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion hyfforddiant staff. Roedd y rhain yn cadarnhau bod gan staff fynediad at amrywiaeth o gyfleoedd hyfforddi sy'n berthnasol i'w swyddogaethau.

Ar adeg ein harolygiad, roedd pob aelod o'r staff yn meddu ar dystysgrif ddilys y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, sy'n ofynnol dan y rheoliadau ar gyfer

deintyddiaeth breifat<sup>5</sup> a phrawf o imiwneiddio boddhaol. Gwnaethom drafod cymorth lechyd Galwedigaethol i staff gyda rheolwr y practis, a nododd bod contract gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda. Fodd bynnag, nid oedd y contract hwn yn ffurfiol. Cytunwyd y byddai hyn yn cael ei ffurfioli.

Roedd system wedi'i sefydlu yn y practis i asesu barn cleifion yn rheolaidd a gweithredu arni. Mae hyn yn sicrhau bod y practis yn cynnig gwasanaeth sy'n bodloni anghenion y cleifion ac yn gwella'r gwasanaeth yn unol â barn y cleifion.

Gwelsom fod tîm staff wedi'i hen sefydlu yn y practis; roedd rhai ohonynt wedi gweithio yn y practis am flynyddoedd lawer. Roedd hyn yn golygu bod cleifion yn cael gofal gan staff sy'n gyfarwydd iddynt.

Dywedodd rheolwr y practis wrthym fod pob aelod o'r staff yn mynychu cyfarfodydd staff misol rheolaidd, ac roedd cofnodion o'r cyfarfodydd staff yn cadarnhau hyn. Roedd hyn yn gyfle i godi unrhyw bryderon ynglŷn â'r gwasanaethau a ddarperir, cyfleu gwybodaeth newydd/berthnasol i'r tîm deintyddol, a thrafod canlyniadau o holiaduron cleifion ac archwiliadau. Roedd hyn yn dangos ei fod yn bractis blaengar sy'n derbyn beirniadaeth ac yn gwella o wersi a ddysgwyd.

Gwnaethom edrych ar amrywiaeth o dystysgrifau cynnal a chadw yn y practis oedd yn dangos bod systemau addas a phrosesau rheoli ar waith i sicrhau bod pob darn o offer yn cael ei archwilio yn amserol ac yn unol â gofynion gorfodol. Serch hynny roedd dyddiad y dystysgrif cynnal a chadw ar gyfer nwy wedi mynd heibio ond daeth y contractwr i'r practis ar y diwrnod canlynol ac anfonwyd y dystysgrif at AGIC yn syth.

Dywedodd y staff wrthym fod unigolyn penodedig ar gyfer cymorth cyntaf; swyddog tân; iechyd a diogelwch a dadheintio. Gwelsom fod y dystysgrif yswiriant indemniad ar wal yn y swyddfa; mae angen i hon fod yn weladwy mewn man cyhoeddus.

***Yr hyn sydd angen ei wella***

***Mae angen i'r dystysgrif yswiriant indemniad fod yn weladwy i'r cyhoedd.***

---

<sup>5</sup> Daeth Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 i rym ar 1 Ionawr 2009. Gwnaed diwygiadau a ddaeth i rym ar 1 Ionawr 2012. Roedd y rhain yn amlinellu'r gofynion cyfreithiol o ran deintyddion yn darparu gwasanaethau deintyddol preifat.



Gwelsom fod y rhan fwyaf o dystysgrifau AGIC y deintyddion yn weladwy i'r cyhoedd ac eithrio un. Mae angen rhoi sylw i hyn.

O ystyried yr argymhellion a nodwyd yn ystod yr arolygiad hwn, atgoffir y darparwr deintyddol o bwysigrwydd sicrhau y gall y practis fonitro cydymffurfiaeth â rheoliadau a safonau perthnasol yn effeithiol a rhagweithiol. Er na wnaed unrhyw argymhelliad penodol yn hyn o beth, disgwylir y bydd tystiolaeth o welliant yn y cyswllt hwn ar adeg yr arolygiad nesaf.

## *Ansawdd yr Amgylchedd*

**Gall cleifion sy'n defnyddio'r practis a'r staff fod yn hyderus bod yr adeilad yn ddiogel, ei fod yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda, ac yn darparu amgylchedd cyfforddus i gleifion dderbyn triniaeth ynddo.**

Mae Practis Deintyddol Rhodfa'r Gogledd yn bractis sefydledig yng nghanol tref Aberystwyth. Nid oes maes parcio penodol, ac mae'r lleoedd parcio ar hyd y ffyrdd ymyl ger y practis yn gyfyngedig hefyd.

Mae pobl ag anawsterau symudedd yn gallu mynd i mewn i adeilad y practis gan nad oes grisiau ac mae'r drws yn ddigon llydan i ganiatáu mynediad i ddefnyddwyr cadair olwyn. Yn ogystal, mae'r deintyddfeydd/ystafelloedd trin cleifion ar y llawr daear.

Cadarnhaodd taith o gwmpas yr adeilad fod y practis yn cael ei gynnal a'i gadw'n foddhaol, y tu fewn a'r tu allan. Roedd toiled y gallai cleifion sy'n defnyddio cadeiriau olwyn gael mynediad ato'n hawdd. Roedd diffoddwyr tân wedi eu gosod mewn mannau strategol, ac roeddent wedi cael gwasanaeth yn rheolaidd.

Roedd y mannau aros, y deintyddfeydd a'r mannau cylchredeg yn lân, yn daclus ac wedi eu goleuo a'u hawyru'n foddhaol.

Gwelwyd bod trefniadau priodol ar waith ar gyfer storio a chadw cofnodion papur ac electronig yn ddiogel, a bod system gorfforaethol wrth gefn a leolir yn ganolog ar gyfer cofnodion electronig. Roedd rhagofalon diogelwch hefyd ar waith i atal mynediad heb awdurdod i fannau yn yr adeilad nad ydynt yn cael eu defnyddio gan gleifion.

Roedd enwau a chymwysterau'r holl ddeintyddion sy'n gweithio yn y practis yn cael eu harddangos. Fodd bynnag, nid oedd bwrdd adnabod staff ar gael i gleifion adnabod y staff oedd yn cyflenwi'r driniaeth. Gwnaethom drafod hyn gyda rheolwr y practis a gadarnhaodd bod hyn eto yn rhan o ail frandio "My Dentist" ac y byddai ar gael yn y mis neu ddau nesaf.

## ***Argymhelliad***

***Rhaid i'r practis arddangos rhestr o'r staff sy'n gweithio yn y practis, eu swyddogaethau, a rhif eu cofrestrriad pan fo hynny'n berthnasol.***

Roedd contractau ar waith ar gyfer symud gwastraff clinigol a gwastraff nad yw'n beryglus oddi yno, ac roedd y bagiau a'r biniau'n cael eu cadw'n ddiogel. Mae hyn yn sicrhau amgylchedd diogel i gleifion ac i staff weithio ynddo.

## 6. Y Camau Nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i'r practis deintyddol gwblhau cynllun gwella o ran pob un o'r pedair adran. Gellir gweld y manylion hyn yn Atodiad A yr adroddiad hwn.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n glir pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd ym Mhractis Deintyddol Rhodfa'r Gogledd yn cael sylw, gan gynnwys amserlenni.

Pan gytunir ar y cynllun gwella caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC a'i werthuso fel rhan o'r broses arolygu deintyddol barhaus.

## Atodiad A

**Practis Deintyddol Cyffredinol: Cynllun Gwella**

**Practis: Practis Deintyddol Rhodfa'r Gogledd**

**Dyddiad yr Arolygiad: 9 Chwefror 2015**

Rhif y Dudalen	Y Gwelliant sydd ei Angen	Cam Gweithredu'r Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
<b>Profiad y Claf</b>				
Tudalen 6	Dylai'r practis ystyried ffyrdd o amlygu'r manylion cyswllt y tu allan i oriau i gleifion.			
Tudalen 7	Cynghorir y practis i archwilio amseroedd aros cleifion i weld a oes meysydd y gellir eu gwella.			
Tudalen 7	Mae angen i'r practis sicrhau bod y dogfennau newydd ar gael cyn gynted â phosibl neu fod digon o'r dogfennau blaenorol ar gael nes bydd yr wybodaeth gyda'r brand newydd yn cyrraedd.			

Rhif y Dudalen	Y Gwelliant sydd ei Angen	Cam Gweithredu'r Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
Tudalen 8	Dylai'r broses gwyno gydymffurfio â'r ddogfen "Gweithio i Wella" a dylai gynnwys manylion cyswllt y Cyngor Iechyd Cymuned (ar gyfer pob claf) a manylion cyswllt AGIC i sicrhau bod cleifion yn ymwybodol o'u hawl i droi atynt pe bai'r angen yn codi.			
<b>Cyflenwi Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd Cymru</b>				
Tudalen 10	Dylai'r practis ddatblygu system ar gyfer archwilio Pelydrau-X i sicrhau arfer diogel ac effeithiol.			
Tudalen 11	Mae angen i'r cwmni sicrhau bod cymorth clinigol priodol ar gael i ddeintyddion a bod archwiliadau ac adolygiadau gan gymheiriaid yn cael eu cynnal i sicrhau arfer diogel a chyfredol.			
Tudalen 12	Dylai'r practis gynnal archwiliadau rheoli heintiau bob chwarter yn unol â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.			

Rhif y Dudalen	Y Gwelliant sydd ei Angen	Cam Gweithredu'r Practis	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
<b>Rheolaeth ac Arweinyddiaeth</b>				
Tudalen 13	Mae angen i'r cwmni ddatblygu polisi ar Urddas a Phreifatwydd Cleifion.			
Tudalen 15	Mae angen i'r dystysgrif yswiriant indemniad fod yn weladwy i'r cyhoedd.			
<b>Ansawdd yr Amgylchedd</b>				
Tudalen 16	Mae'n rhaid i'r practis arddangos rhestr o'r staff sy'n gweithio yn y practis, eu swyddogaethau, a rhif eu cofrestriad pan fo hynny'n berthnasol.			

**Cynrychiolydd y Practis:**

**Enw (wedi'i brintio):** .....

**Teitl:** .....

**Llofnod:** .....

**Dyddiad:** .....